# Deall Cynghorau Ymchwil UKRI

Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) yw asiantaeth cyllido'r DU ar gyfer ymchwil ac arloesedd, sy'n cwmpasu'r holl brif feysydd academaidd, o beirianneg a ffiseg i'r dyniaethau a'r celfyddydau. Yn y sector gwyddorau bywyd, darperir cyllid yn bennaf drwy'r Cyngor Ymchwil Feddygol, y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol, ac Innovate UK i ddarparu datrysiadau sy'n gwella canlyniadau cleifion, gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac iechyd y boblogaeth.

Mae cyfleoedd cyllido ar gael drwy gydol y flwyddyn, gyda chynghorau'n cynnig grantiau dan arweiniad ymchwilwyr gyda 'dyddiad cau treigl' a galwadau wedi'u targedu'n strategol, gan gynnwys cymrodoriaethau, cyllid seilwaith, a rhaglenni ymchwil thematig. Fel arfer mae'r cyfleoedd hyn wedi'u targedu yn cael eu datblygu i ymateb i flaenoriaethau ymchwil ac arloesi penodol.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o gynghorau ymchwil UKRI sydd fwyaf perthnasol i wyddorau bywyd, gan dynnu sylw at eu blaenoriaethau ymchwil a'u ffocws cyllido i'ch helpu i ddod o hyd i'r llwybr cyllido mwyaf addas i'ch prosiect.

| Cyngor Ymchwil | Ffocws |
| --- | --- |
| Y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) | Mae'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol yn cefnogi astudiaethau sy'n gwella ein dealltwriaeth o systemau byw a'r prosesau biolegol sy'n sail i iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae'r cyllid yn cwmpasu meysydd fel bioleg foleciwlaidd a chellog, heneiddio'n iach, maeth a biotechnoleg. |
| Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) | Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yw cyllidwr ymchwil gwyddor cymdeithasol mwyaf y DU. Mae'n cefnogi astudiaethau sy'n ein helpu i ddeall pobl, ymddygiad a chymdeithas, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd, gofal cymdeithasol, economeg iechyd, iechyd y boblogaeth, a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal. |
| Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) | EPSRC yw prif gyllidwr ymchwil y gwyddorau ffisegol a pheirianneg yn y DU, gan gefnogi technolegau fel dyfeisiau meddygol, deallusrwydd artiffisial, iechyd digidol, delweddu, ac arloesi ar sail data ar gyfer gofal iechyd. |
| Innovate UK | Innovate UK (IUK) yw asiantaeth arloesi genedlaethol y DU, sy'n cefnogi busnesau i ddatblygu ac i fasnacheiddio technolegau, cynnyrch a gwasanaethau newydd. Ym maes iechyd a gwyddorau bywyd, mae'n ariannu datblygiadau arloesol fel dyfeisiau meddygol, diagnosteg, technolegau iechyd digidol, a datrysiadau gofal iechyd sydd â'r potensial i gael effaith yn y byd go iawn. |
| Y Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC) | Y Cyngor Ymchwil Feddygol yw'r prif gyllidwr cyhoeddus ymchwil feddygol yn y DU. Mae'n cefnogi astudiaethau sy'n gwella ein dealltwriaeth o iechyd a chlefydau dynol, gan helpu i ddatblygu triniaethau, meddyginiaethau, diagnosteg ac ymyriadau newydd a all atal salwch a gwella canlyniadau i gleifion. |
| Cyngor Ymchwil Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (STFRC) | Mae'r Cyngor Ymchwil Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cefnogi ymchwil mewn technolegau uwch, gwyddor data, cyfrifiadura, a chyfleusterau ymchwil arbenigol. Ym maes iechyd a gwyddorau bywyd, mae hyn yn cynnwys meysydd fel delweddu meddygol, iechyd digidol, dadansoddi data iechyd, a seilwaith ymchwil. |